*These notes refer to the Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (c.3)*

# DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

---

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

1. Mae’r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mawrth 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013. Fe'u lluniwyd gan Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Mae’r pwerau i wneud y Ddeddf wedi eu cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 ir Ddeddf honno. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd i wneud darpariaeth ar gyfer Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac mewn cysylltiad â hi, yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 15 (Gweinyddiaeth Gyhoeddus).

3. Defnyddir y termau a'r byrfoddau canlynol yn y Nodiadau Esboniadol:

   **Y Cynulliad** – Cynulliad Cenedlaethol Cymru

   **Comisiwn y Cynulliad** – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

   **ACC** – Archwilydd Cyffredinol Cymru

   **SAC** – Swyddfa Archwilio Cymru

   **CGC** – Cronfa Gyfunol Cymru

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Cyflwyniad*

#### *Adran 1 – Trosolwg*

4. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 36 o adrannau a 4 Atodlen. Fel y nodir yn adran 1 (na fwriedir iddi gael effaith gyfreithiol) o'r Ddeddf, mae'r prif ddarpariaethau yn gwneud y canlynol –

   - rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) i barhau;
   - creu corff corfforaethol newydd, sef Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), ac yn rhoi swyddogaethau iddi;
   - rhagnodi trefniadau llywodraethu ar gyfer ACC a SAC, a gwneud darpariaeth arall yn ymwneud â’r berthynas rhwng y ddau;
   - rhagnodi sut y mae swyddogaethau ACC i’w harfer, ac yn gwneud ACC yn archwilydd i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

## Rhan 1: Archwilydd Cyffredinol Cymru

### *Adran 2 - Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru*

5. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer parhau swydd ACC. Ar hyn o bryd, mae swydd ACC wedi ei sefydlu o dan Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Effaith y cyfeiriad at barhau swydd ACC yw nad oes toriad ym mharhad y swydd honno nac ym mharhad arfer swyddogaethau'r swydd honno. O dan adran 2(2) Ei Mawrhydi sydd i benodi unigolyn i ddal y swydd honno ar enwebiad y Cynulliad. Bydd penodiad i'r swydd am gyfnod o wyth mlynedd ar y mwyaf; dim ond unwaith y caiff person ddal swydd ACC.

6. Cyn gwneud enwebiad i’w Mawrhydi ynghylch y person a ddylai gael ei benodi yn ACC, rhaid i'r Cynulliad gael ei fodloni bod ymgynghoriad rhesymol wedi ei gynnal gyda'r cyrff hynny sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

### *Adran 3 – Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad*

7. Mae ACC yn dal y swydd tan ddiwedd y cyfnod y’i penodwyd ar ei gyfer (caiff hynny fod am hyd at wyth mlynedd ar ôl y penodiad, gweler adran 2) oni fydd ACC:

- yn cael ei ryddhau o’i swydd gan Ei Mawrhydi ar gais ACC ei hunan
- yn cael ei ryddhau o’i swydd oherwydd bod Ei Mawrhydi bellach wedi ei bodloni bod ACC, am resymau meddygol, yn analluog i gyflawni ei ddyletswyddau a’i fod hefyd yn analluog, am y rhesymau hynny, i ofyn am ei ryddhau o’i swydd;
- yn cael ei ddiswyddo gan Ei Mawrhydi oherwydd camymddwyn.

8. Dim ond ar argymhelliad y Cynulliad y caniateir diswyddo person ar sail camymddwyn. Ni cheir gwneud argymhelliad o’r fath oni fydd o leiaf ddwy ran o dair o holl Aelodau’r Cynulliad yn pleidleisio o blaid gweithredu felly.

### *Adran 4 - Anghymhwyso*

9. Mae'r adran hon yn nodi'r seiliau a fyddai yn anghymhwyso person rhag bod yn ACC. Mae'r seiliau yn ymwneud â bod yn aelod o ddeddfwrfa o fewn y Deyrnas Unedig, yn gyflogai i SAC, neu’n ddeiliad unrhyw swydd neu benodiad arall gan y Goron, y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad.

### *Adran 5 - Cyflogaeth etc cyn-Archwilydd Cyffredinol*

10. Mae'r adran hon yn rhagnodi'r cyfyngiadau ynghylch cyflogaeth, dal swydd neu ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, a fydd yn gymwys i bersonau a benodwyd yn ACCau o dan y Ddeddf hon ond nad ydynt bellach yn dal y swydd honno. Bydd y cyfyngiadau'n gymwys am gyfnod o ddwy flynedd sy’n dechrau gyda’r diwrnod y mae'r person yn peidio â dal y swydd. Y bwriad yw osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro o'r fath pan fo person yn ACC - e.e. er mwyn osgoi sefyllfa lle y mae ACC, a’i gyfnod yn y swydd ar fin dirwyn i ben, yn cyflawni ei swyddogaethau'n drugarog mewn perthynas â chorff y gallai gael ei benodi iddo wedi i'w swydd fel ACC ddod i ben.

### *Adran 7 - Tâl cydnabyddiaeth*

11. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad wneud trefniadau i dalu tâl cydnabyddiaeth ar gyfer ACC a benodwyd o dan y Ddeddf hon (cyn penodi ACC), a chaiff y trefniadau hynny gynnwys cyflog, lwfansau, arian rhodd, trefniadau ar gyfer pensiwn a buddion eraill. Ym mhob achos ni chaiff y trefniadau hyn (nac elfennau ohonynt) fod ar sail perfformiad.

12. Wrth benderfynu ar y trefniadau, mae'n ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â'r Prif Weinidog.

13. Bydd symiau sy'n daladwy yn cael eu codi ar CGC, ac mae hyn yn golygu y bydd taliad yn dod yn uniongyrchol o'r Gronfa honno yn hytrach nag o'r arian y pleidleisir arno gan y Cynulliad yn flynyddol. Mae hyn wedi ei lunio i warchod annibyniaeth ACC ymhellach.

14. Noder hefyd baragraff 13 o Atodlen 1 i'r Ddeddf, a pharagraff 1 o Atodlen 3 iddi – gweler isod.

### *Adran 8 - Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer*

15. Mae'r adran hon yn cynnal ac yn cynyddu annibyniaeth ACC wrth iddo arfer ei swyddogaethau – nid yw swyddogaethau'r swydd yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Llywodraeth Cymru, ac mae darpariaeth newydd i'w gwneud yn glir bod gan ACC ddisgresiwn llwyr yn y modd y mae yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio.

16. Er hynny, mae hyn yn ddarostyngedig i'r canlynol. Rhaid i ACC anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac mewn dull cost-effeithiol. Rhaid i ACC hefyd roi ystyriaeth i'r safonau a'r egwyddorion ymarfer proffesiynol mewn perthynas ag archwilio a chyfrifyddiaeth. Rhaid i ACC roi ystyriaeth i gyngor a ddarperir gan SAC, ac ar yr amod bod ACC yn ystyried y cyngor hwnnw mae gan ACC ddisgresiwn llwyr wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio.

### *Adran 9 - Pwerau atodol*

17. Mae'r adran hon yn darparu p#er cyffredinol i ACC wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gysylltiedig â'u harfer neu'n gydnaws â'u harfer. Nid yw'r p#er cyffredinol hwn yn ymestyn, fodd bynnag i swyddogaethau sydd, neu a allai ddod, yn gyfrifoldeb i SAC o dan y Ddeddf hon.

### *Adran 10 - Cod ymarfer archwilio*

18. Rhaid i ACC ddyroddi cod ymarfer yn ymgorffori'r arfer proffesiynol gorau sydd i'w fabwysiadu wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau —

- yngl#n ag ymchwilio i unrhyw gyfrifon (gan gynnwys cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru) neu ddatganiadau o gyfrifon yn unol ag unrhyw ddeddfiad;
- yngl#n â chynnal neu hybu astudiaethau neu ymchwiliadau gwerth am arian; ac
- fel y darperir mewn amryw ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

19. Wrth baratoi'r Cod, rhaid i ACC ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddo ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Pan fo'r Cod wedi ei wneud a'i gyhoeddi, rhaid i ACC gydymffurfio ag ef.

### *Adran 11 – Archwilio cyrff llywodraeth leol*

20. Mae hyn yn darparu mai ACC fydd archwilydd statudol cyfrifon yr holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Dylid darllen adran 11 ar y cyd â pharagraff 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf – gweler isod.

21. Ar hyn o bryd, nid oes p#er gan ACC i archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol. Yn hytrach, penodir archwilwyr gan ACC i gynnal yr archwiliadau hynny. Gan fod swyddogaethau eraill gan ACC mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol (er enghraifft mewn perthynas â gwerth am arian) a'i fod yn gyfrifol am archwilio Llywodraeth Cymru a chyrff GIG Cymru, a chan ystyried byrdwn cynigion eraill yn y Ddeddf, bernir ei bod yn briodol breinio'r p#er i archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn ACC.

22. Mae adran 16 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn darparu bod 'rheoleiddwyr perthnasol' yn cynnwys archwilydd a benodir o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Oherwydd y diwygiadau a wnaed gan adran 11(1) o'r Ddeddf hon, mae'n ofynnol gwneud diwygiad canlyniadol i Fesur 2009 gan na fydd archwilwyr yn cael eu penodi gan ACC yn y cyd-destun hwnnw mwyach. Cyflawnir hyn gan adran 11(2) o'r Ddeddf.

### *Adran 12 - Trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwyliol Gweinidogion Cymru: ymgynghori*

23. Mae adran 16 o Fesur Dan adran 146A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 caniateir i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, drosglwyddo swyddogaethau penodol i ACC, neu i ACC arfer swyddogaethau penodol ar eu rhan. Ni chaniateir trosglwyddo neu arfer swyddogaethau o'r fath ac eithrio gyda chydsyniad ACC.

24. Mae adran 12 o'r Ddeddf yn diwygio adran 146A o Ddeddf 1998 i'w gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â SAC cyn gwneud gorchymyn o'r fath. Nid oes newid yn y gofyniad bod ACC yn cydsynio i'r trosglwyddiad neu i arfer y swyddogaethau hynny.

## Rhan 2: Swyddfa Archwilio Cymru a'i pherthynas â'r Archwilydd Cyffredinol

### *Adran 13 – Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru*

25. Mae adran 13 yn sefydlu corff corfforaethol newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi effaith i Atodlen 1, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch ymgorffori SAC.

### *Adrannau 14 a 15 – Pwerau ac Effeithlonrwydd*

26. Mae adran 14 yn darparu y caiff SAC wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig â'u harfer, ond rhaid i SAC (yn rhinwedd adran 15) anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac yn gost-effeithlon.

### *Adran 16 – Y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC*

27. Mae adran 16 yn darparu mai ACC yw prif weithredwr SAC, ond nad yw'n gyflogai iddi. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi effaith i Atodlen 2 (Y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC).

### *Adran 17 - SAC i fonitro a darparu cyngor*

28. Rhaid i SAC fonitro ACC mewn perthynas â'i swyddogaethau. Caiff SAC hefyd gynghori ACC mewn perthynas â'i swyddogaethau. Mae ACC o dan ddyletswydd (adran 17(3)) i roi sylw i unrhyw gyngor o'r fath.

### *Adran 18 - Dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'u harfer ar y cyd*

29. Mae adran 18 yn galluogi i swyddogaethau ACC gael eu cyflawni gan gyflogai i SAC neu berson sy'n darparu gwasanaethau i SAC (er enghraifft, y rheini sydd wedi eu contractio i ddarparu gwasanaethau cefnogi archwilio i ACC), ar yr amod fod y cyflogai neu'r person wedi ei awdurdodi i wneud hynny mewn cynllun dirprwyo, ac yn cytuno i gydymffurfio â chod ymarfer archwilio ACC (gweler adran 10(1)). Caiff cynllun dirprwyo ei baratoi gan ACC, a bydd yn disgrifio amodau'r cynllun hwnnw. Pan fo swyddogaethau yn cael eu cyflawni o dan y cynllun dirprwyo mae'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth yn aros gydag ACC.

30. Rhaid i'r cynllun dirprwyo gael ei baratoi gan ACC (a neb arall), a rhaid iddo ymgynghori gyda SAC wrth baratoi neu ddiwygio'r cynllun hwnnw.

### *Adran 19 - Darparu gwasanaethau*

31. Mae adran 19 yn galluogi SAC i wneud trefniadau i gael gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol y gallai fod eu hangen arni hi neu ACC er mwyn cyflawni eu priod swyddogaethau, er enghraifft darparu gwasanaethau archwilio arbenigol yn ymwneud â threth. Mae hefyd yn galluogi SAC i wneud trefniadau gydag 'awdurdod perthnasol' (fel y'i diffinnir yn adran 19(9)) fel bod SAC neu ACC yn gallu darparu'r gwasanaethau hynny i awdurdod perthnasol, neu i arfer swyddogaethau'r awdurdod hwnnw.

32. Mae 'awdurdod perthnasol' yn cynnwys awdurdodau lleol (yng Nghymru a Lloegr), awdurdodau cyhoeddus eraill ac adrannau o'r llywodraeth.

33. Mae SAC yn gallu gwneud trefniadau am delerau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â thalu. Os yw'r telerau'n cynnwys ffioedd sy'n daladwy i SAC (er enghraifft, ar gyfer darparu gwasanaethau gan ACC i awdurdod perthnasol), rhaid iddynt fod yn unol â'r cynllun codi ffioedd a lunnir o dan adran 24 (gweler isod).

### *Adran 20 – Gwariant*

34. Rhaid i ACC a SAC ddarparu amcangyfrif ar y cyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol (sy'n dod i ben ar 31 Mawrth) o bob incwm a gwariant gan SAC, gan gynnwys, yn benodol, yr adnoddau y mae eu hangen amdanynt ar gyfer arfer swyddogaethau ACC. Rhaid i'r amcangyfrif gael ei osod gerbron y Cynulliad er mwyn iddo gael edrych arno ac efallai ei addasu. Rhaid i'r amcangyfrif gael ei osod o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

35. Dim ond os ymgynghorir ag ACC a SAC, ac yr ystyrir unrhyw safbwyntiau a fynegir ganddynt, y caniateir i'r Cynulliad wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif.

36. Bydd yr amcangyfrif (wedi ei addasu neu fel arall) yn cael ei gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol y Cynulliad o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad. Rhaid i'r amcangyfrif gynnwys pob elfen incwm a gwariant, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol a phob incwm ffioedd amcangyfrifedig. (Mae paragraff 75 o Atodlen 4 i'r Ddeddf hon yn diddymu paragraffau 9(4) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – y p#er i ACC gadw incwm rhai ffioedd).

### *Adran 21 – Darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol*

37. Mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol bod SAC, fel deiliad y gyllideb, yn darparu i ACC ba adnoddau bynnag y bo'n ofynnol ganddo er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Yn benodol, bydd yr adnoddau hynny yn cynnwys—

- staff i gynorthwyo ACC
- gwasanaethau gan unrhyw berson (er enghraifft, gwasanaethau archwilio allanol neu wasanaethau archwilio eraill, yn bennaf o dan adran 19)
- dal eiddo, dogfennau neu wybodaeth arall; a
- cadw cofnodion mewn perthynas â swyddogaethau ACC.

### *Adran 22 - Benthyca*

38. Mae'r adran hon yn galluogi SAC i fenthyca arian, ar ffurf gorddrafft neu fel arall, at y diben o fodloni gorwariant dros dro. Nid yw'r p#er benthyca ar gael i ACC.

### *Adrannau 23 a 24 – yn ymwneud â ffioedd*

39. Mae adran 23 yn galluogi SAC i godi ffioedd am archwiliadau a swyddogaethau mewn perthynas ag archwiliadau a gyflawnir gan ACC ac unrhyw wasanaethau a ddarperir gan ACC, a hynny yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd a ddarperir gan SAC. Ni

chaniateir i'r ffioedd a godir fod yn fwy na chost lawn darparu'r gwasanaethau dan sylw, ac y mae'r ffioedd yn daladwy i SAC.

40. O dan adran 24, rhaid i gynllun SAC nodi'r deddfiadau sy'n ei galluogi i godi ffi yn unol ag unrhyw swm penodedig neu raddfa ffioedd benodedig, yn ôl y digwydd. Ond os nad yw deddfiad yn gwneud darpariaeth ar gyfer swm neu raddfa, rhaid i SAC nodi ei sail ar gyfer cyfrifo'r ffi. Mae'r adran hon hefyd yn darparu ar gyfer rhagnodi rhai graddfeydd ffioedd gan Weinidogion Cymru, ac os gwnânt hynny, bydd rhaid i SAC gydymffurfio â'r graddfeydd a ragnodir. Rhaid i SAC adolygu ei chynllun o leiaf unwaith bob blwyddyn galendr a gosod ei chynllun (ac unrhyw ddiwygiad ohono) gerbron y Cynulliad ar gyfer ei gymeradwyo. Bydd y cynllun yn cael effaith pan gymeradwyir ef gan y Cynulliad; ac yn dilyn hynny, rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun.

### *Adrannau 25 i 27 – yn ymwneud â'r Cynllun Blynyddol*

41. Rhaid i ACC a SAC ar y cyd baratoi cynllun blynyddol. Rhaid i'r cynllun blynyddol nodi'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer ACC a SAC fel ei gilydd; yr adnoddau sydd ar gael ac a allai ddod ar gael i SAC; a'r modd y mae'r adnoddau i gael eu defnyddio er mwyn cyflawni'r gwaith a gynlluniwyd ar eu cyfer (adran 25(2)).

42. Rhaid i'r cynllun blynyddol nodi hefyd uchafswm yr adnoddau y rhagwelir y bydd SAC yn eu dyrannu i ACC at y diben o ymgymryd â rhaglen waith ACC (gweler adran 25(2)(f))

43. Er nad yw ACC na SAC wedi eu rhwymo gan y cynllun blynyddol, rhaid iddynt roi sylw iddo (adran 27). Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ACC a SAC, wrth arfer eu swyddogaethau (gan gynnwys darparu'r adnoddau sy'n ofynnol gan ACC), roi i'r cynllun blynyddol y pwysigrwydd priodol o dan yr holl amgylchiadau. Os bydd rhyw waith nas rhagwelwyd yn codi, yna rhaid pwyso â mesur yn briodol yr angen i gyflawni'r gwaith hwnnw (a goblygiadau hynny i adnoddau) o'i gymharu â'r gwaith a gynlluniwyd (a'r adnoddau a ddyrannwyd i'r gwaith hwnnw).

44. Rhaid i'r cynllun blynyddol gael ei baratoi gan ACC a SAC cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r gwaith i'w gyflawni ynddi (adran 25(1)). Unwaith y'i llunnir, rhaid ei osod gerbron y Cynulliad (adran 26), a bydd y Cynulliad o dan ddyletswydd i'w gyhoeddi yn rhinwedd adran 144 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 73 o Atodlen 4 i'r Ddeddf hon).

## Rhan 3: Amrywiol a chyffredinol

### *Adran 28 - Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol*

45. Mae'r adran hon yn darparu awdurdod i'r Cynulliad wneud darpariaeth (o fewn ei Reolau Sefydlog) ynghylch sut y mae'r swyddogaethau a nodir yn y Ddeddf sydd dan ofal y Cynulliad (ac eithrio ei swyddogaethau i gymeradwyo deddfwriaeth) i'w harfer. Y bwriad yw y gall y Cynulliad wneud darpariaeth yn ei Reolau Sefydlog, wrth ddibynnu ar y ddarpariaeth hon, fel bod un neu ragor o'i bwyllgorau yn gallu arfer y swyddogaethau hynny sy'n ymwneud â goruchwylio a chael trosolwg ar ACC. Er enghraifft, gallai'r Cynulliad ddarparu y bydd y swyddogaeth o benodi aelodau anweithredol SAC yn cael ei harfer gan bwyllgor y Cynulliad yn hytrach na chan y Cynulliad yn gweithredu mewn Cyfarfod llawn.

### *Adran 29 – Indemnio*

46. Mae adran 29 yn darparu bod unrhyw ddigolllediad i drydydd parti am dordyletswydd (er enghraifft mewn contract neu mewn achos o esgeulustra) gan ACC a benodwyd o dan y Ddeddf hon, person sy'n darparu gwasanaethau i ACC neu SAC (er enghraifft o dan adran 19), cyn-aelodau neu aelodau presennol SAC neu gyflogeion iddi, i'w godi ar CGC a'i dalu ohoni (felly nid yw'r digollediad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth

y Cynulliad mewn penderfyniad cyllidebol). Gweler hefyd baragraff 13 o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

### *Adran 30 - Gorchmynion*

47. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch pwerau eraill yn y Ddeddf sy'n galluogi gwneud is-ddeddfwriaeth (sef gorchmynion). Mae'r is-ddeddfwriaeth honno i gael ei gwneud drwy offerynnau statudol. Yn is-adrannau (2) a (3) sefydlir gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer gwneud y gorchmynion hynny. Darpariaeth dechnegol yw is-adran (4), sy'n sicrhau bod y pwerau sydd yn y Ddeddf i wneud yr is-ddeddfwriaeth yn ddigon eang i wneud darpariaethau penodol, megis darpariaethau atodol.

### *Adran 31 - Cyfarwyddiadau*

48. Mae adran 31 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â'r pwerau yn y Ddeddf i ddyroddi cyfarwyddiadau.

### *Adran 32 – Dehongli*

49. Mae'r adran hon yn darparu ystyr termau amrywiol a ddefnyddir yn y Ddeddf.

### *Adran 33 – Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc*

50. Mae adran 33(1) yn rhoi effaith i Atodlen 3 i'r Ddeddf, sy'n nodi'r prif ddarpariaethau trosiannol etc.

51. Mae adran 33(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed etc pellach mewn cysylltiad â'r Ddeddf hon yn dod i rym, neu i roi effaith lawn i'r Ddeddf pan fo wedi ei deddfu.

52. Mae adran 33(4) yn galluogi gorchymyn o dan is-adran (2) i addasu'r darpariaethau trosiannol etc. a nodir yn Atodlen 3. Mae'r ddarpariaeth hon yn 'ddarpariaeth rhwyd arbed' er mwyn sicrhau y gellir gwneud addasiadau i'r darpariaethau manwl a nodir yn Atodlen 3 petai'r amgylchiadau ar yr adeg pryd y daw'r Ddeddf i rym yn mynnu hynny.

### *Adran 34 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

53. Mae Adran 34 yn rhoi effaith i Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

### *Atodlen 1 – Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru*

### *Paragraff 1 – Aelodaeth*

54. Mae'r paragraff hwn yn cadarnhau y bydd gan SAC 9 aelod, sef 5 nad ydynt yn gyflogeion i SAC (a elwir yn 'aelodau anweithredol'), ACC a 3 cyflogai i SAC (a elwir yn 'aelodau sy'n gyflogeion').

### *Paragraff 2 – Penodi aelodau anweithredol ac aelodau sy'n gyflogeion*

55. Penodir aelodau anweithredol ac aelodau sy'n gyflogeion SAC ar sail teilyngdod ac ni all person gael ei benodi (nac aros yn y swydd) os yw wedi ei anghymhwyso ar y seiliau a nodir ym mharagraff 26 o Atodlen 1 – gweler isod.

### *Paragraff 4 – Penodi aelodau anweithredol*

56. Y Cynulliad sydd i benodi aelodau anweithredol SAC, a hynny ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

### *Paragraff 5 – Penodi cadeirydd ar SAC*

57. Bydd y Cynulliad yn penodi un o bum aelod anweithredol SAC yn Gadeirydd ar SAC. Cyn gwneud y penodiad hwnnw, rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog. Caniateir ymgynghori â phersonau eraill fel y bo'n briodol.

58. Ni chaniateir penodi person yn Gadeirydd fwy na dwywaith.

### *Paragraff 6 – Cyfnod penodi ac ailbenodi*

59. Penodir aelodau anweithredol a Chadeirydd SAC am bedair blynedd ar y mwyaf, ac ni chaniateir penodi person i'r swyddi hyn fwy na dwywaith.

### *Paragraff 7 – Trefniadau talu cydnabyddiaeth*

60. Caiff y Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth ar gyfer Cadeirydd SAC a’r aelodau anweithredol eraill, a chaiff y trefniadau hynny gynnwys cyflog, lwfansau, rhoddion ariannol, a buddion eraill (ond nid trefniadau pensiwn). Ym mhob achos ni chaniateir i’r trefniadau hyn (nac elfennau ohonynt) fod yn seiliedig ar berfformiad.

61. Cyn gwneud y trefniadau ar gyfer y Cadeirydd, rhaid ymgynghori â’r Prif Weinidog (paragraff 7(2)). Rhaid ymgynghori hefyd â pherson priodol sydd â throsolwg ar benodiadau cyhoeddus (paragraff 9). Caniateir ymgynghori â phersonau eraill fel y bo'n briodol.

62. Bydd y symiau sy'n daladwy ar gyfer Cadeirydd SAC yn cael eu codi ar CGC; bydd y symiau sy'n daladwy ar gyfer yr aelodau anweithredol eraill yn cael eu talu gan SAC.

### *Paragraffau 8 a 9 – Telerau penodi eraill*

63. Caiff y Cynulliad benderfynu ar delerau ac amodau eraill sy'n gymwys i aelodau anweithredol SAC, gan gynnwys y Cadeirydd. Caiff y cytundebau neu'r trefniadau hyn gynnwys cyfyngiadau ar swyddi eraill y caniateir i aelod anweithredol eu dal am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl iddynt orffen dal y swydd (paragraff 8).

64. Cyn gwneud penderfyniad ar y telerau a’r amodau hynny rhaid ymgynghori â pherson priodol sydd â throsolwg ar benodiadau cyhoeddus y mae'r Cynulliad yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori ag ef.

### *Paragraffau 10 i 12 – Dod â phenodiadau i ben*

65. Caiff Cadeirydd ac aelodau anweithredol SAC ymddiswyddo o'u swyddi ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cynulliad (paragraff 10).

66. Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad aelod anweithredol SAC i ben ar y seiliau a nodir ym mharagraff 11(1). Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad Cadeirydd SAC i ben (ar y seiliau a nodir ym mharagraff 12(3)), ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog. Caiff ymgynghori â phersonau eraill hefyd. Nid yw dod â phenodiad y Cadeirydd i ben yn golygu’n awtomatig fod ei benodiad yn aelod anweithredol o SAC yn dod i ben. Os yw aelodaeth anweithredol y person sy'n Gadeirydd yn dod i ben, yna bydd y person hwnnw yn colli ei swydd fel Cadeirydd hefyd.

### *Paragraff 13 – Talu cydnabyddiaeth ychwanegol i’r Archwilydd Cyffredinol*

67. Yn ychwanegol at y trefniadau a wneir gan y Cynulliad ar gyfer talu cydnabyddiaeth i ACC (gweler adran 7), caiff SAC hefyd ddarparu bod taliadau ychwanegol yn cael eu gwneud i ACC i dalu costau yr eir iddynt gan y person hwnnw yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a phrif weithredwr arni. Bydd y taliadau hynny'n cael eu gwneud gan SAC.

### *Paragraff 14 i 16 – Penodi aelodau sy'n gyflogeion*

68. Rhaid i'r aelodau sy'n gyflogeion gynnwys:

- un person y mae'n rhaid i ACC ei argymell ar gyfer ei benodi yn un o aelodau anweithredol SAC – sef yr aelod penodedig. Rhaid i'r aelodau anweithredol wedyn naill ai benodi'r person hwnnw neu ei gwneud yn ofynnol bod ACC yn argymell person arall, ac felly ymlaen, hyd nes penodir rhywun; a
- dau berson a etholir drwy bleidlais gan staff SAC – sef yr aelodau etholedig.

### *Paragraff 17 – Telerau penodi*

69. Rhaid i delerau penodi'r aelodau sy'n gyflogeion gael eu gwneud gan yr aelodau anweithredol, a chânt gynnwys trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer lwfansau, rhoddion ariannol a buddion eraill i dalu costau. Bydd y taliadau hynny yn cael eu gwneud gan SAC. Bydd yr aelodau sy'n gyflogeion yn parhau i dderbyn eu cyflogau fel cyflogeion i SAC. Nid oes unrhyw ddarpariaeth pensiwn ar gyfer aelod sy'n gyflogai, ond os oes gan aelod sy'n gyflogai bensiwn o ganlyniad i'w gyflogaeth gyda SAC yna bydd ei wasanaeth fel aelod sy'n gyflogai hefyd yn cyfrif tuag at ei hawlogaeth i'r pensiwn hwnnw.

70. Ni chaiff y SAC newydd ystyried bod cyfnod mewn swydd aelod sy'n gyflogai yn doriad yng ngwasanaeth cyflogedig yr aelod hwnnw.

### *Paragraff 18 – Telerau penodi eraill*

71. Caiff yr aelodau anweithredol benderfynu ar delerau penodi eraill sy'n gymwys i benodiad aelod sy'n gyflogai; caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y swyddi eraill y caiff aelod sy'n gyflogai eu dal yn ystod ei benodiad ac am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl iddynt orffen yn y swydd honno.

### *Paragraffau 19 i 21 – Dod â phenodiad i ben*

72. Caiff aelod sy'n gyflogai ymddiswyddo o'r swydd honno (ond parhau'n gyflogai i SAC) ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol (paragraff 20). Byddai'r penodiad yn dod i ben hefyd ar ddiwedd unrhyw gyfnod penodi a nodir yn ei delerau penodi, neu os yw'n peidio â bod yn gyflogai i SAC.

73. Mae paragraff 21 o Atodlen 1 hefyd yn darparu'r broses ar gyfer dod â phenodiad i ben gan yr aelodau anweithredol, a'r seiliau dros wneud hynny.

### *Paragraffau 22 i 25 – yn ymwneud â phenodi, statws a thalu cydnabyddiaeth*

74. Mae gan SAC, yn rhinwedd paragraff 22, bwerau i gyflogi a thalu staff ar ba delerau bynnag a ystyria'n briodol.

75. Bydd yn ofynnol i SAC wneud taliadau o ran buddion blwydd-daliadau a'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â hwy (paragraff 25(2)).

### *Paragraff 26 – Anghymhwyso fel aelod o'r SAC neu gyflogai iddi*

76. Mae'r paragraff hwn yn rhagnodi'r seiliau pan na ellir penodi person yn aelod o SAC nac yn gyflogai SAC (na pharhau'n benodedig felly).

77. Mae angen paragraff 26(4) i sicrhau nad yw ACC yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o SAC, o gofio bod ACC wedi ei benodi gan Ei Mawrhydi ar sail enwebiad y Cynulliad.

### *Paragraffau 27 i 30 – mewn perthynas â Rheolau Gweithdrefnol*

78. Rhaid i SAC wneud rheolau mewnol i reoleiddio ei gweithdrefnau (paragraff 27). Rhaid i'r rheolau ddarparu am gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfodydd SAC (paragraff 26), a chânt ddarparu ar gyfer ffurfio pwyllgorau SAC, ac unrhyw is-bwyllgorau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio gweithdrefnau pwyllgorau ac is-bwyllgorau (paragraff 29) a rhaid iddynt gynnwys darpariaethau ynghylch cynnal pleidleisiau at y diben o benodi'r aelodau etholedig sy'n gyflogeion (aelodau sy'n gyflogeion) (paragraff 30).

79. Gweler hefyd baragraff 3 o Atodlen 3 i'r Ddeddf sy'n galluogi Cadeirydd SAC i wneud rheolau dros dro ar gyfer penderfynu ar fusnes SAC tan y gwneir y set gyntaf o reolau ffurfiol.

### *Paragraff 32 – Dirprwyo swyddogaethau*

80. Gydag eithriadau penodol (fel y'u nodir ym mharagraff 32(5)) caiff SAC ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i aelodau, cyflogeion neu bwyllgorau (gan gynnwys is-bwyllgorau) SAC, neu i bersonau sy'n darparu gwasanaethau i SAC. Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn effeithio ar gyfrifoldeb y SAC newydd am y gwaith o arfer y swyddogaeth.

### *Paragraff 33 – Cyfrifon SAC*

81. Mae'r paragraff hwn yn cadarnhau mai ACC yw swyddog cyfrifyddu SAC. Pennir cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu yn rhinwedd paragraff 33(2) i (6).

### *Paragraffau 34 a 35 – Archwilio SAC etc*

82. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi archwilydd i archwilio cyfrifon SAC, a chadarnhau telerau penodi'r archwilydd hwnnw. Caiff SAC argymell person i'w benodi, ond rhaid iddi dalu'r tâl cydnabyddiaeth y darperir ar ei gyfer yn y penodiad.

83. Bydd yr archwilydd yn archwilio ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon (a baratoir gan ACC fel swyddog cyfrifyddu SAC), sydd i'w cyflwyno i'r archwilydd gan Gadeirydd SAC cyn pen pum mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ar y mwyaf. Unwaith bod y datganiad o gyfrifon wedi ei archwilio a'i ardystio, rhaid i'r archwilydd osod y cyfrifon (fel y'u hardystiwyd) a'i adroddiad arnynt gerbron y Cynulliad.

84. Ymhlith materion eraill mae paragraff 35 yn rhoi'r p#er i'r archwilydd gasglu gwybodaeth (gan gynnwys dogfennau) sy'n angenrheidiol at y diben o archwilio'r cyfrifon.

85. Mae paragraff 35 hefyd yn galluogi'r archwilydd i gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau gan ACC a SAC wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau; yn rhoi p#er i'r archwilydd gasglu gwybodaeth (gan gynnwys dogfennau) at y diben hwnnw ac yn darparu y caiff yr archwilydd osod adroddiad ar ei ganfyddiadau gerbron y Cynulliad, mewn cysylltiad â'r ymchwiliadau hyn.

## *Atodlen 2 – Y Berthynas Rhwng Yr Archwilydd Cyffredinol a Sac*

### *Paragraff 1 – Paratoi a chymeradwyo etc*

86. Rhaid i SAC ac ACC ar y cyd baratoi cod ymarfer sy'n ymwneud â'r berthynas rhyngddynt. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt adlewyrchu'r egwyddor fod gan ACC ddisgresiwn lwyr yngl#n â'r modd yr arferir swyddogaethau ei swydd o dan adran 8(1) ac 8(2) o'r Ddeddf hon. Rhaid adolygu'r cod yn rheolaidd a'i ddiwygio fel y bo'n briodol. Rhaid i'r cod, ac unrhyw ddiwygiad ohono, gael eu gosod gerbron y Cynulliad a'u cymeradwyo ganddo. Rhaid i SAC ac ACC gydymffurfio â'r cod a threfnu i'w gyhoeddi.

### *Paragraff 2 – Cynnwys*

87. Rhaid i’r cod gynnwys darpariaethau yngl#n â’r modd y bydd SAC yn monitro ac yn cynghori ACC, a darpariaeth yngl#n â safonau ar gyfer llywodraethu corfforaethol. Mae paragraff 2 hefyd yn darparu y caiff y cod gynnwys unrhyw fater arall sy’n berthnasol i’r berthynas rhwng SAC ac ACC.

### *Paragraff 3 – Adroddiadau*

88. Mae adrannau 25 i 27o’r Ddeddf yn nodi'r trefniadau ynghylch cynllun blynyddol ACC a SAC. Mae paragraff 3 yn nodi'r trefniadau ar gyfer adroddiad blynyddol ar arfer y swyddogaethau, sy'n cynnwys (ymhlith materion eraill) asesiad o'r graddau y cyflawnwyd blaenoriaethau’r cynllun blynyddol. Yn ychwanegol at yr adroddiad blynyddol, rhaid i ACC a chadeirydd SAC hefyd lunio o leiaf un adroddiad interim yn ystod pob blwyddyn ariannol ar y gwaith o arfer eu swyddogaethau, a rhaid cynnwys asesiad o'r graddau y cyflawnwyd blaenoriaethau’r cynllun blynyddol. Y Cynulliad fydd yn penderfynu ar nifer unrhyw adroddiadau interim eraill sydd i’w llunio o fewn blwyddyn ariannol.

89. Rhaid i'r adroddiadau interim a'r adroddiad blynyddol gael eu gosod gerbron y Cynulliad – yr adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, a'r adroddiadau interim ar ddyddiadau a bennir gan y Cynulliad.

### *Paragraff 4 – Dogfennau a gwybodaeth*

90. Mae’r paragraff hwn yn darparu y caiff unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae'n rhaid i berson ei darparu i ACC neu y caiff ei darparu i ACC, ei darparu i SAC. Mae hyn yn ategu'r cyfrifoldeb sydd ar SAC i gael a dal dogfennau a gwybodaeth ar gyfer yr ACC newydd ac i gynnal cofnodion (o dan adran 21).

### *Paragraffau 5 i 14 – Person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol*

91. Mae paragraffau 5 a 6 yn pennu’r amgylchiadau ar gyfer dynodi person i arfer swyddogaethau ACC dros dro yn lle ACC. Mae unrhyw ddynodiad dros dro i gael ei wneud gan SAC, gyda chytundeb y Cynulliad. Ni chaiff dynodiad dros dro fod am fwy na chwe mis, ond caniateir ei ymestyn unwaith (gyda chytundeb y Cynulliad) am gyfnod pellach o chwe mis.

92. Rhaid i unrhyw ddynodiad dros dro fod yn ddynodiad person a gyflogir gan SAC, ac a fyddai’n parhau i gael ei gyflogi gan SAC ar yr un telerau (paragraffau 9 a 10). Caiff SAC a’r Cynulliad gytuno ar delerau ychwanegol, gan gynnwys telerau talu cydnabyddiaeth, ond rhaid peidio â chynnwys cyflog ychwanegol na phensiwn yn y telerau hynny.

### *Atodlen 3 – Darpariaethau Trosiannol, Atodol Ac Arbed*

### *Paragraff 1 – Yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol i barhau yn Archwilydd Cyffredinol*

93. Golyga paragraff 1 fod person, os yw’n dal swydd ACC ar y 'diwrnod penodedig', i'w drin ar y diwrnod hwnnw ac wedi hynny fel pe bai wedi cael ei benodi o dan Ran 1 o’r Ddeddf. Bydd hyn yn sicrhau parhad rhwng y gyfundrefn statudol sydd eisoes yn bodoli a'r gyfundrefn statudol newydd o dan y Ddeddf hon o ran ACC.

94. Diffinnir y term ‘diwrnod penodedig’ ym mharagraff 1(5), a'i ystyr yw'r diwrnod y daw'r paragraff hwn i rym.

95. Mae paragraff 1(2)(b) yn darparu mai cyfnod swydd ACC, os ydyw yn y swydd ar y diwrnod penodedig, fydd wyth mlynedd namyn unrhyw gyfnod o amser y bu’n ACC cyn y diwrnod penodedig. Canlyniad hyn yw y caiff y person hwnnw, os mai ef neu

hi yw’r ACC cyn y diwrnod penodedig ac os yw’n parhau i ddal y swydd honno ar y diwrnod penodedig, ei drin yn ACC fel pe bai wedi ei benodi o dan y Ddeddf hon. Os yw cyfnod swydd person yn gyfnod o wyth mlynedd (fel y mae’r Ddeddf yn ei ddarparu) ond ei fod eisoes wedi gwasanaethu am ddwy flynedd yn y swydd, yna bydd cyfnod y person hwnnw yn ACC yn cael ei leihau ar y diwrnod penodedig i gyfnod o chwe mlynedd.

96. Mae paragraff 1(3) yn darparu, yn yr achos hwn, fod trefniadau talu cydnabyddiaeth o dan adran 7 o'r Ddeddf i'w gwneud gan y Cynulliad (ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog). Rhaid gwneud hyn cyn y diwrnod penodedig. Bydd hyn yn sicrhau bod y person sy'n dal swydd ACC yn ei dal ar y telerau a’r amodau a bennir yn unol â darpariaethau'r Ddeddf hon, gan gynnwys telerau yn ymwneud â thalu cydnabyddiaeth.

### *Paragraff 2 – Arbedion ar gyfer archwilwyr a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*

97. Mae'r paragraff hwn yn darparu y bydd penodiad ynghylch archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, a wneir gan ACC (yn unol â'r adran 13 bresennol o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004), yn parhau tan ddiwedd y cyfnod penodi, yn hytrach na'i fod yn dod i ben pan ddaw darpariaethau perthnasol y Ddeddf i rym. Hefyd cedwir effaith weithredol y penodiad, gan gynnwys y cynllun ar gyfer ffioedd y caniateir eu codi, a chasglu a dal gwybodaeth berthnasol; mae hyn yn sicrhau y gall y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr archwilwyr a benodwyd gan ACC barhau o dan ddarpariaethau presennol Deddf 2004, o fewn y telerau eu penodiad.

### *Paragraff 4 – Rheolau gweithdrefnol SAC cyn i reolau gael eu gwneud o dan baragraff 27 o Atodlen 1*

98. Mae'r rheolau gweithdrefnol ffurfiol cyntaf i gael eu gwneud gan SAC (o dan baragraff 27 o Atodlen 1 i'r Ddeddf hon). Cyn i'r rheolau hynny gael eu gwneud ni fydd rheolau yn eu lle i lywodraethu trefn busnes SAC. Oherwydd hyn, mae'r paragraff hwn yn darparu y bydd busnes (gan gynnwys gwneud y set gyntaf o reolau) yn cael ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau a bennir gan Gadeirydd SAC. Cyn gynted ag y bydd y rheolau gweithdrefnol ffurfiol cyntaf wedi eu gwneud bydd y busnes SAC wedyn yn cael ei gynnal yn unol â'r rheolau hynny.

### *Paragraff 5 – Trosglwyddo staff*

99. Oherwydd y bydd y Ddeddf yn trosglwyddo cyfrifoldebau am gyflogi staff oddi wrth yr ACC presennol i'r SAC newydd, mae paragraff 5 yn rhoi effaith i drosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau cyflogaeth y staff hynny.

### *Paragraff 6 – Amrywiadau mewn contractau cyflogaeth*

100. Mae’r paragraff hwn yn rhwystro contractau cyflogaeth cyflogeion ACC, y trosglwyddwyd eu cyflogaeth i SAC, rhag cael eu newid os yr unig reswm, neu’r prif reswm, dros y newid yw’r trosglwyddiad neu reswm sy’n gysylltiedig â’r trosglwyddiad ac nad yw’n rheswm economaidd, technegol na threfniadol sy’n ysgogi newidiadau yn y gweithlu.

### *Paragraffau 7 ac 8 – Cydgytundebau a chydnabod undebau llafur*

101. Mae paragraff 7 yn darparu ar gyfer trosglwyddo cytundebau a wnaed ar y cyd rhwng undeb lafur gydnabyddedig ac ACC, ynghylch unrhyw gyflogai y trosglwyddir ei gyflogaeth o ACC i SAC. Mae paragraff 8 yn darparu ar gyfer parhau’r gydnabyddiaeth o unrhyw undeb llafur annibynnol a gydnabyddid gan ACC cyn y trosglwyddiad. Mae’r paragraffau hyn yn sicrhau bod cydgytundebau a chydnabyddiaeth o undebau llafur yn parhau, fel petaent wedi eu gwneud a’u cydnabod gan SAC.

### *Paragraff 9 – Diswyddo mewn perthynas â throsglwyddo*

102. Mae’r paragraff hwn yn diogelu cyflogeion i ACC, y trosglwyddwyd eu cyflogaeth i SAC, rhag cael eu diswyddo’n annheg, os yr unig reswm, neu’r prif reswm, dros y diswyddo yw’r trosglwyddiad, neu reswm sy’n gysylltiedig â’r trosglwyddiad ac nad yw’n rheswm economaidd, technegol neu drefniadol sy’n ysgogi newidiadau yn y gweithlu. Mae’n darparu hefyd y trinnir y diswyddiad, os diswyddir cyflogai am resymau o’r fath, fel pe bai’n ddiswyddiad oherwydd dileu swydd.

### *Paragraffau 10 ac 11 – Trosglwyddo eiddo arall a hawliau a rhwymedigaethau eraill*

103. Mae paragraffau 10 ac 11 yn gwneud darpariaeth yngl#n â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau oddi wrth yr ACC presennol i'r SAC newydd. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith y caiff swyddogaethau penodol ACC eu trosglwyddo i'r SAC newydd.

### *Paragraff 12 – Atebolrwydd troseddol yr Archwilydd Cyffredinol*

104. Mewn cysylltiad â pharagraff 7 o’r Atodlen hon (yn ymwneud â throsglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau sydd wedi eu trosglwyddo i SAC), mae paragraff 12 yn darparu ar gyfer trosglwyddo o ACC i SAC unrhyw atebolrwydd troseddol a all fod gan ACC mewn cysylltiad â'r eiddo, yr hawliau neu'r rhwymedigaethau hynny.

### *Paragraff 13 – Indemnio*

105. Mae paragraff 13(1) yn gwneud darpariaeth i gymhwyso adran 29 i rwymedigaethau a oedd yn codi cyn y daeth adran 29 i rym, neu’n codi mewn perthynas â gweithred neu anweithred a ddigwyddodd cyn y daeth adran 29 i rym. Mae adran 29 yn darparu bod unrhyw swm, sy’n daladwy gan berson a indemnir o ganlyniad i rwymedigaeth am dordyletswydd, yn cael ei godi ar CGC a’i dalu ohoni.

106. Mae paragraff 13(2) a (3) yn gwneud darpariaeth i’r perwyl, os byddai swm wedi bod yn daladwy gan Archwilydd Cyffredinol blaenorol o dan baragraff 9(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y byddai’r paragraff hwnnw yn parhau i gael effaith fel pe na bai’r diddymiad (Atodlen 4, paragraff 79(2)) wedi dod i rym

### *Atodlen 4 – Màn Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol*

107. Mae'r Atodlen hon yn nodi'r diddymiadau a'r addasiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi effaith i'r Ddeddf. Mae’r rhain yn sicrhau (er enghraifft) bod cyfeiriadau at y SAC newydd, fel y bo'n briodol, mewn deddfwriaeth lle'r oedd y cyfeiriadau blaenorol at ACC yn unig.

108. Gwneir diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i'r canlynol –

- Deddf Blwydd-daliadau 1972;
- Deddf Cyllid 1989;
- Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992;
- Deddf Addysg 1997;
- Deddf Llywodraeth Cymru 1998;
- Deddf Llywodraeth Leol 1999;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

- Deddf Cwmnïau 2006;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009; a
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

109. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi dyddiadau pob cam o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth ynghylch hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4174

| ***Cam*** | ***Dyddiad*** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 9 Gorffennaf 2012 |
| Cam 1 - Dadl | 4 Rhagfyr 2012 |
| Cam 2 Pwyllgor Craffu – ystyried gwelliannau | 28 Ionawr 2013 |
| Cam 3 Cyfarfod Llawn – ystyried gwelliannau | 5 Mawrth 2013 |
| Cam 4 Y Cynulliad yn cymeradwyo | 5 Mawrth 2013 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 29 Ebrill 2013 |